

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 7fed 2019 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones, Rita Jones, Gwenda Morris, Meilir Jones, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Iolo Evans a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

## Cyfarfod Blynyddol.

i) Croesawyd Rita Jones i'r gadair a diolchwyd i Gwynedd Jones am ei waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Etholwyd Maldwyn Jones yn is-gadeirydd.

ii) Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Gethin Morris yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clerch anfon llythyr i ddiolch iddo am ei ymroddiad yn ystod ei gyfnod ar y Cyngor. Cytunwyd i hysbysu Cyngor Gwynedd am y sedd wag.

### iii) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.

Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Eifion Davies.

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

### iv) Cyfrifon 2018-19.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2018-19 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir.

### v) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon ar y 23ain o Fai.

### vi) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Cytunwyd i gadw'r ffioedd presennol.

### vii) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2019/20.

Derbyniwyd llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

### viii) Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Aseiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws a'r asedau eraill ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r clerch ofyn i swyddogion Cyngor Gwynedd os y gallent gynghori'r Cyngor am gyflwr wal mynwent Llanfor. Nodwyd pryder am faint coeden bytholwyrdd a oedd wedi cael ei blannu ar fedd ym mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerch ysgrifennu at y teulu yn gofyn yn garedig iddynt ei symud.

## Cyfarfod Misol.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

### ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau cynllunio isod.

### iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

- i) Coeden rhwng Ty'n Ddol a'r Lodge, Llandderfel yn gwyro i'r ffordd - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i arbenigwr coed fynd i'w asesu.
- ii) Cyflwr y wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn – roedd ein cwyn wedi cael ei anfon ymlaen i'r Adran Cludiant yng Nghaernarfon.
- iii) Cyflwr yr A494 – cafwyd cadarnhad y byddant yn cymeryd golwg ar y lleoliad ac adnewyddu unrhyw ddiffyg sylweddol cyn gynted a bo modd.

#### b) Lloches bws Sarnau.

Cafwyd cadarnhad fod y gwaith wedi cael ei gwblhau. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd i weld pryd y byddai'r arwydd 'Sarnau' a gafodd ei ddiinstrio yn y ddamwain yn cael ei ailosod.

#### iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

##### a) Cyngor Gwynedd.

- i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Ebrill.
- ii) Cais i arddangos posteri yn hysbysu'r newidiadau i'r gyfundrefn Lles - Credyd Cynhwysol.
- iii) Cais i osod giatau ar Llwybr Troed Rhif 166, Rhiwlas – nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

##### b) Un Llais Cymru.

i) Llythyr o ddiolch am ailymaelodi a chais i yrru manylion cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Ardal.

##### c) Amrywiol.

- i) CND Cymru - llythyr yn egluro fod y Llywodraeth yn chwilio am gymuned yng Nghymru a fyddai'n 'gwirfoddoli' i leoli gwastraff niwclear. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y cynnig o wrthod claddu gwastraff niwclear ac i hysbysu'r CND o'u penderfyniad er mwyn iddynt wneud cofnod o hyn a rhaedru'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r bwriad i leoli unrhyw wastraff niwclear o fewn y gymuned.
- ii) Cyfoeth Naturiol Cymru – diweddariad ar y cynlluniau i sicrhau fod Llyn Tegid yn gallu parhau i wrthsefyll digwyddiadau llifogydd eithriadol.
- iii) Pwyllgor Cylch Meithrin Maesywaen - roedd cais wedi cyrraedd y clerc i drafod newidiadau posib i leoliad parc chwarae Frongoch. Gan nad oedd unrhyw fanylion pellach wedi cyrraedd y Cyngor cytunwyd i ganiatáu i Alwyn Jones ac Eifion Davies fynychu unrhyw cyfarfod posib ac iddynt ddod a'r wybodaeth yn nol i'w drafod ym mis Mehefin.
- iv) Cyngor Tref y Bala – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i'w cais i ymestyn y mesur 30mya ar yr A494 i gyfeiriad Y Bryn, Llanfor. Cytunwyd yn unfrydol i'w cais a gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r Cyngor Tref o hyn ac i basio'r mater ymlaen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd gan ddatgan cefnogaeth y Cyngor Cymuned.
- v) CFFI Cwmtirmynach - derbyniwyd llythyr gan y clwb yn egluro eu bod wedi codi arian er mwyn prynu diffibriliwr i Neuadd Mynach ac os y byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo i brynu'r offer ac adhawlio'r TAW. Cytunwyd yn unfrydol i'w cynorthwyo gyda'r pryniant.
- vi) Y Cyfnod - Derbyniwyd cais am wybodaeth leol ar gyfer llyfryn gwybodaeth am Y Bala. Cytunwyd i gynnig i'r golygydd ddefnyddio unrhyw wybodaeth a oedd ar gael ar wefan y Cyngor.
- vii) Cynnig i'r Cyngor Cymuned dderbyn lluniau o ddiddordeb lleol - derbyniwyd neges gan unigolyn a oedd yn awyddus i rannu lluniau hanesyddol o drigolion a digwyddiadau ardal Llandderfel a'r Bala. Gofynnwyd i'r clerc ddiolch iddo am gysylltu ag i ofyn caniatâd i'w dosbarthu a phwyllgor Neuadd Bro Derfel a Cymdeithas Cantref.

#### v) Ceisiadau Cynllunio.

- a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol. Gan nad oedd y Cyngor wedi cyfarfod ym mis Ebrill roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i'w trafod a chytunwyd i gefnogi ceisiadau canlynol:-  
C19/0343/04/LL – Estyniad cefn deulawr ynghyd a newidiadau mewnol. Derlwyn, 1, Gwern Gwalia, Glanrafon (Iolo Evans yn datgan diddordeb a ni chymerodd ran yn y drafodaeth).  
NP5/63/275 – Codi adeilad i gartrefu arddanghosfa o hanes lleol Frongoch. Tir ger Awel y Gwirod, Frongoch (Alwyn Jones yn datgan diddordeb a ni chymerodd ran yn y drafodaeth)

C19/0273/04/LL - Dymchwel ty presennol ac adeiladu ty menter wledig yn ei le. Pale Bach, Cefnddwysarn.

Trafodwyd y cynllun diwygiedig a dderbyniwyd ar gyfer y cais isod a chytunwyd fod pryder y Cyngor am uchder y sied, ei agosrwydd i'r anheddau cyfagos a'i leoliad mewn ardal sy'n cael ei effeithio gan lifogydd yn parhau.

C19/0073/04/LL – Adeiladu adeilad amaethyddol, ffordd mynediad a lledu mynedfa bresennol. Cae O.S. 2700, Llandderfel.

#### **vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £4,500. Derbyniwyd yr ad-daliad yswiriant am y difrod i loches bws Sarnau. Roedd y cwmni yswiriant yn parhau gyda'i ymdrechion i adhawlio'r 'excess,' a oedd yn daliadwy gan y Cyngor, gan gwmni yswiriant y gyrrwr.

#### **b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

i) Eilir Jones (atgyweirio lloches bws Sarnau).

ii) Came & Company (Yswiriant) - nid oedd y clerc wedi derbyn yr union bris ar gyfer yr yswiriant. Gan fod yr yswiriant yn ddaliadwy cyn y byddai'r Cyngor yn cyfarfod nesaf cytunwyd i awdurdodi'r taliad os byddai'r pris yn gymharol a'r un flwyddyn flaenorol.

#### **c) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd cais ariannol gan Bobath. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

#### **vii) Materion lleol.**

#### **a) Diogelwch Cyffordd Ddwyrdd.**

Yn dilyn damwain ddifrifol ar y gyffordd yn ddiweddar cytunwyd yn unfrydol i ddatgan cefnogaeth y Cyngor I ymgyrch y Cynghorwyr Sir i ddiogelu'r safle. Gofynnwyd i'r clerc anfon at Weinidog Trafnidiaeth Llywodraeth i ddatgan hyn.

#### **b) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-**

i) Gwaith tarmacio - roedd y cynghorwyr wedi sylwi bod hast mawr wedi bod i orffen gwaith tarmacio yn yr ardal cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud yn hwyr yn y nos yng ngholau'r peiriannau. Mynegwyd pryder am ansawdd y gwaith gan y sylwir fod nifer o fannau wedi cael ei marcio i nodi namau.

ii) Dwr yn dod lawr o bentref Sarnau i'r A494 - gan fod nifer o ddamweiniau wedi bod ger mynedfa'r pentref gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r swyddogion priffyrdd o'r broblem gan y gallai fod yn beryg yn y gaeaf os y byddai'n rhewi.

iii) Llwybr cyhoeddus Berth, Frongoch - nodwyd fod arwydd 'Dim mynediad' wedi cael ei osod ar y giât a all fod yn gamarweiniol i'r rhai sydd yn ceisio cael mynediad i'r llwybr cyhoeddus.

iv) Arwydd 'Ffordd ar Gau', ffordd Cefnddwysarn - roedd arwydd wedi cael ei osod yn cynghori'r cyhoedd y byddai'r ffordd ar gau ar y 20/5/19. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau i weld beth oedd pwrpas cau'r ffordd gan nad oedd y trigolion lleol wedi derbyn unrhyw wybodaeth.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,  
Mehefin 4ydd yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**